

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Swyddog Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.


Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



**Teitl y swydd:** **Swyddog Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol**



**Cyflog:** £37,280 – £39,152

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Aberystwyth, Llandrindod neu Dre Newydd**

**Dyddiad cau:** 07/11/2025 10:00

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a’r arfer orau o fewn maes rheolaeth Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd drwy ddarparu cyngor cymwys, cynnal archwiliadau ac ymweliadau monitro, ymchwilio digwyddiadau yn ogystal a darparu hyfforddiant perthnasol. Gwerthuso effaith gwaith yr Asiantaeth ar yr amgylchedd ac ymdrechu i’w leihau gyn belled a sy’n bosibl. Bydd hefyd elfen o reoli safleoedd sydd yng ngofal yr Asiantaeth, gan gynnwys trefnu a monitro gwaith contractwyr.



# Cyfrifoldebau

**Rheolaeth Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol (IDA)**

- Cefnogi'r Rheolwr IDA ym mhob agwedd ar reolaeth IDA ar ran ACGCC
- Cynnig IDA arbenigol i staff yr Asiant ar bynciau megis: Cydymffurfiaeth CDM, Asbestos, Gweithio ar rwydwaith cefnffyrdd, Rheoli gwastraff, Atal llygredd
- Monitro deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud ag IDA ac ystyried yr effaith ar yr Asiant.
- Paratoi adroddiadau yn ôl yr angen ar gyfer y Rheolwr IDA.
- Sicrhau bod gan yr Asiant drefn gadarn mewn lle i reoli Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) yn iawn ar gyfer prosiectau a gwaith perthnasol.
- Monitro'r diwydiant am arferion gorau a hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus mewn rheolaeth IDA.
- Asesu statws rheolaeth IDA yn barhaus yn yr Asiant, gan adnabod meysydd i wella a datblygu polisïau a systemau ble bo hynny'n briodol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr IDA wrth ddatblygu a chynnal y systemau Rheoli Ansawdd achrededig (ISO 9001, ISO14001, ISO 45001).
- Cynorthwyo'r Rheolwr IDA i sicrhau bod asesiad risg trylwyr a systemau rheoli damweiniau mewn lle
- Darparu hyfforddiant IDA mewnol.
- Cysylltu â budd-ddeiliaid allweddol (Eraill) gan gynnwys, ymhlith eraill, y Gwasanaethau Brys, swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion iechyd a diogelwch corfforaethol yr awdurdod lleol, swyddogion Awdurdodau Partner, darparwyr gwasanaeth y sector preifat a'r sector cyhoeddus (gan gynnwys contractwyr ac ymgynghorwyr), UK Highways Ltd., Ymgynghorwr Technoleg Trafnidiaeth Cymru, Contractwr Cynnal a Chadw Cymru Gyfan ac ACDC.
- Cysylltu â staff eraill yr Asiant a darparu cefnogaeth iddynt.
- Cynghori ar faterion llesiant staff ar ran yr Asiant.
- Ymgymryd â / rheoli asesiadau risg iechyd a diogelwch, dadansoddiadau, cofrestrau a'r monitro sy'n angenrheidiol fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth yr Asiant.
- Datblygu rhaglen archwilio IDA gynhwysfawr ac ymgymryd ag archwiliadau iechyd a diogelwch o fewn ACGCC a'i ddarparwyr gwasanaeth sector preifat a sector cyhoeddus.
- Ymgymryd ag archwiliadau IDA ac adnabod a gweithredu unrhyw gynlluniau gwella angenrheidiol.
- Monitro ac adrodd ar fesurau rheoli cofrestr agwedd ac effaith ACGCC
- Monitro ac adrodd ar effeithiau amgylcheddol cadwyn gyflenwi ACGCC
- Adnabod cyfleoedd am welliant amgylcheddol parhaus a rhoi rhaglenni i'w cyflwyno ar waith.




# Manylion Person

## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

### Nodweddion personol:

### Hanfodol

- Gallu gweithio mewn amgylchedd tîm
- Ymroddgar ac â’r gallu i gymell ei hun
- Sgiliau rhyngbersonol wedi’u datblygu’n dda a'r gallu i ddylanwadu ar eraill
- Gallu gweithio’n ddiogel dan bwysau.
- Gallu gweithio o dan oruchwyliaeth gyfyngedig
- Sgiliau trefnu da
- Gweithio y tu allan i oriau arferol yn aml, yn ôl y gofyn
- Pendant ac yn fodlon herio a chywiro ymarfer gweithredol gwael

### Cymwysterau a hyfforddiant personol:

- Tystysgrif NEBOSH Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol / Iechyd a Diogelwch Adeiladu / Rheolaeth Amgylcheddol NEU
- Gradd neu gyfwerth mewn pwnc yn ymwneud â Rheolaeth Amgylcheddol

### Profiad perthnasol:

Gweithio mewn swyddogaeth Iechyd a Diogelwch a / neu reolaeth amgylcheddol

### Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:

- Gwybodaeth am ofynion systemau rheoli ansawdd, gan gynnwys:
- ISO 9001, ISO 45001 ac ISO 14001
- Sgiliau cyfathrebu da.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o reolaeth iechyd a diogelwch ac amgylcheddol.
- Yn wybodus gyda TG, yn medru deall a defnyddio technoleg amrywiol i gyflawni'r allbynnau y mae'r Asiant eu hangen.
- Gwybodaeth am reoliadau statudol, safonau a manylebau perthnasol parthed rheolaeth iechyd a diogelwch ac amgylcheddol.
- Gallu trefnu blaenoriaethau gwaith, cynllunio ymlaen llaw a chyflwyno rhaglenni gwaith yn brydlon gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosib.
- Trwydded yrru gyfredol.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:

- 29.5 o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- Patrwm gweithio oriau fflecsi

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o  wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.

- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.

- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.